11. Coed Aeron

Llan-y-tair-Mair, Gwyr, Abertawe

Cyfeiriadau Grid	Map Explorer 164 yr A.O. Gŵyr; Prif fynedfa: SS475385, Canolfan y Safle: SS474384
Statws	Dynodwyd fel SoDdGA ac yn cynnwys gorchymyn gwarchod coed.
Daliadaeth	Prynwyd gan yr Ymddiriedolaeth fis Rhagfyr 1969.
Maint	6.8 he (16.9 erw).
Lleoliad a Nodiadau Mynediad	500 m i'r de ddwyrain o Lan-y-tair-Mair, Gŵyr. Gellir sicrhau mynediad drwy ddilyn y llwybr troed cyhoeddus o gyferbyn â'r fynedfa i dde Neuadd Stout am 1.7 km, neu o'r llwybr sy'n rhedeg i'r gogledd o Fferm Berry, gan gadw i'r dde o'r ffermdy. Mae llwybr troed cyhoeddus yn mynd drwy'r coetir. Nid oes maes parcio yn agos at y warchodfa. Nid oes modd defnyddio cadair olwyn yn y fan yma.
Cludiant cyhoeddus	Mae'r arosfa fws agosaf yng ngiatiau Neuadd Stout, gyferbyn â Giatiau'r Neuadd, ac mae ar lwybr rhif 118 (o Orsaf Fysus Quadrant yn Abertawe)

Disgrifiad: Coetir collddail cymysg hynafol.
Mae Coed Aeron yn enghraifft o goetir cymysg [NVC: W10a], sy'n brin yn y rhan yma o'r Gŵyr, wedi'i lleoli ar ddrifft rhewlifol heb ddraeniad da ar Raean Melinfaen. Ceir coed Derw yma, yn ogystal â Bedw, Ynn, Cyll, Merhelyg, Criafol ac Aethnenni. Gwelir y safle ar fap degwm 1847 Llandewi, fel coetir ar yr hanner gorllewinol a phrysgwydd i'r dwyrain. Gwelir y coed hynaf a mwyaf, derw yn bennaf, ar ochr orllewinol y warchodfa heddiw, ac mae'r gweddill yn cynnwys clystyrau o'r un oedran o Dderw, Bedw ac Ynn aml-goes. Mae hyn yn awgrymu bod y coed yn hanner dwyreiniol y warchodfa wedi cael eu torri i gyd yn ystod rhyfeloedd Napoleon ac wedi cael adfywio'n naturiol wedyn, ond ni chyffyrddwyd â'r hanner gorllewinol. Mae'r map degwm hefyd yn dangos perllan drionglog fechan yn y coed, ar y ffin orllewinol, lle mae coed afal yn dal i dyfu.

Tua chanol y coed, ac yn y gogledd orllewin, mae draeniad y tir yn wael iawn. Mae gweddill haen y cae wedi'i orchuddio â Mieri trwchus, gyda darnau o Redyn. Mae prysgwydd Cyll, Drain Gwynion, Afalau Surion (5) a Chelyn i'w gweld yn yr haen o lwyni, gyda Gwyddfid (6-9) ac Eiddew. Hefyd gellir cael hyd i Farchredyn Cul, Miled y Coed (6) ac, yn y fan ble mae'r tir yn gorsiog iawn, Gellesg Melyn (5-7), Gold y Gors (3-5) ac Eglyn Cyferbynddail (4-7). Ceir llu o epiffytau ar y coed Derw a Merhelyg, a cheir cynrychiolaeth dda o fryoffytau hefyd.

Mae Llygod y Maes a Chwistlod Lleiaf yn defnyddio blychau adar y Titw Tomos Las a'r Titw Mawr hefyd, ac ymhlith yr adar eraill a welir yma mae'r Dringwr Bach, Telor y Cnau, Cnocell y Coed, y Telor Penddu, y Bwncath, y Dryw Eurben, Ysgrech y Coed, Telor yr Helyg a'r Cyffylog, gyda heidiau o bincod cymysg yn y gaeaf, yn cynnwys Pinc y Mynydd.

berry wood 1 6/7/06, 10:31 am



Nodau Rheoli: Cynnal a chadw'r warchodfa fel coetir collddail cymysg drwy ganiatáu adfywiad naturiol y coed brodorol, dal ati i docio ac osgoi gadael i anifeiliaid bori yma drwy gynnal a chadw ffensys y terfynau.

Amser da i ymweld	
Mawrth - Mehefin	Blodau'r coetir
Ebrill - Gorffennaf	Adar yn magu
Medi - Tachwedd	Ffwng